

# Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr

## Canllawiau ar gyfer Darllenwyr Gweithio mewn Arholiadau

### Beth yw Darllenydd?

Darllenydd yw person a fydd yn darllen y canlynol, os gofynnir iddo/iddi:

- y papur arholiad cyfan neu unrhyw ran ohono
- unrhyw ran o ateb y myfyriwr

Yn achos myfyrwyr gyda nam ar y golwg, os gofynnir iddo/iddi, bydd hefyd:

- yn helpu gyda mapiau, diagramau a thablau er mwyn darparu'r wybodaeth y mae'r copi printiedig yn ei roi i ymgeiswyr sy'n gweld;
- yn hysbysu'r myfyriwr am wallau cyflwyno amlwg mewn trawsgrifiad wedi ei eirbrosesu (yn amodol ar ddeilliannau dysgu).

\*\*\*Rhaid i ddarllenwyr fod yn gyfarwydd â'r pwnc a'r eirfa\*\*\*

### Pwy sy'n gymwys i fod yn Ddarllenydd?

Ar y cyfan, efallai y bydd angen darllenydd ar fyfyrwyr sy'n methu darllen print, neu fyfyrwyr sy'n gallu defnyddio gwybodaeth glywedol yn well na gwybodaeth weledol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd. Dylai fod gan fyfyrwyr Gynllun Cefnogi Dysgu Personol er mwyn bod yn gymwys i gael Darllenydd.

### Cyn yr Arholiad

- Cyrhaeddwch mewn da bryd, o leiaf chwarter awr cyn dechrau'r arholiad.
- Pan fo'n bosibl, dylid rhoi cyfle i chi ddarllen trwy'r papur arholiad ychydig cyn dechrau'r arholiad er mwyn gwirio ynganiad unrhyw eiriau nad ydych yn gyfarwydd â nhw.
- Dylech gael sesiwn ymarfer fer gyda'r myfyriwr cyn dechrau cyfnod yr arholiadau.
- Dylech gael gwybod â pha aelod o staff i gysylltu os bydd unrhyw broblemau'n codi yn ystod yr arholiad, er enghraifft, pe bai diffyg cyfathrebu. Fel arfer, dyma'r person yn yr ysgol a fu'n gyfrifol am y trefniadau.

### Yn ystod yr arholiad:

- Ni ddylai defnyddio Darllenydd beri mantais nac anfantais i fyfyriwr.

- Rhaid ichi ddarllen yn gywir ac yn glir.
- Dim ond y cwestiynau a'r cyfarwyddiadau y dylech eu darllen. Ni ddylech egluro nac esbonio ystyr y testun.
- Rhaid i chi, os gofynnir i chi, nodi sillafiad unrhyw air sy'n ymddangos yn y papur cwestiynau - fel arall ni ddylid rhoi sillafiadau.
- Rhaid i chi, os gofynnir i chi, roi gwybodaeth am faint o amser sydd wedi mynd a faint o amser sy'n weddill.
- Fel arfer, caniateir 25% o amser ychwanegol ar gyfer pob arholiad.

## Cwestiynau?

Bydd y Swyddfa Arholiadau ([arholiadau@bangor.ac.uk](mailto:arholiadau@bangor.ac.uk)) neu Gynghorydd o'r Gwasanaeth Anabledd ([gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk](mailto:gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk)) yn gallu ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych mewn perthynas â darparu Darllenwyr.

## Sylwer:

Yn achos ymgeiswyr sydd angen Darllenydd ac Ysgrifennydd (Amanuensis), gall yr un person gyflawni'r ddwy swyddogaeth.